

Llythyr oddi wrth yr ysgol at rieni ynghylch cysylltiad agos a gadarnhawyd

Annwyl Riant,

Fe'n cyngorwyd gan wasanaeth Profi Orlhain Diogelu GIG Cymru bod achos COVID-19 wedi'i gadarnhau o fewn grŵp cyswllt neu ddosbarth eich plentyn.

Mae Gwasanaeth Profi Orlhain Diogelu GIG Cymru wedi asesu bod eich plentyn wedi bod mewn cysylltiad agos â'r achos a gadarnhawyd, ac felly mae angen rhoi mesurau ataliol ar waith. Mae **cysylltiad agos** yn cyfeirio at unigolyn:

- sydd wedi bod o fewn 1 metr i chi y cawsoch sgwrs wyneb yn wyneb ag ef/hi neu gysylltiad corfforol croen yn cyffwrdd â chroen ag ef/hi, yr oedd wedi pesychu arnoch, neu y cawsoch fathau eraill o gysylltiad ag ef/hi o fewn 1 metr am gyfnod o fwy na munud;
- sydd o fewn 2 fetr i chi am gyfnod o fwy na 15 munud;
- yr ydych wedi teithio mewn cerbyd ag ef/hi, neu a oedd yn eistedd yn agos atoch ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Mae'n rhaid i'ch plentyn hunanynysu a pheidio â dychwelyd i'r ysgol tan ar ôl iddo/iddi gwblhau cyfnod hunanynysu o 10 diwrnod. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn ei yn ei gwneud yn ofynnol i gysylltiadau agos ag achos COVID-19 a gadarnhawyd hunanynysu am 10 diwrnod ers y cysylltiad diwethaf â'r achos a gadarnhawyd. Y rheswm am hynny yw y gall gymryd amser i'r symptomau ddatblygu. Efallai y bydd y daflen amgaeedig ar hunanynysu o fudd i chi <https://llyw.cymru/cadw-dysgwyr-yn-ddiogel-mewn-addysg>

Mae'n bwysig ein bod ni i gyd yn chwarae ein rhan i leihau lledaeniad heintiau yn ein hysgol a'n cymuned drwy sicrhau cydymffurfiaeth lem â gofynion hunanynysu. Nid yw'n ofynnol i aelodau o deulu eich aelwyd hunanynysu, ond dylent ddilyn y canllawiau cyffredinol ar gadw pellter cymdeithasol ac ar ffurfio aelwydydd estynedig yn ystod y cyfnod ynysu.

Os bydd eich plentyn yn datblygu symptomau COVID-19, dylai gael prawf cyn gynted â phosibl. Dyma brif symptomau COVID-19:

- twymyn (mwy na 37.8°C);
- peswch cyson newydd; a/neu
- golli synnwyr blasu neu arogl neu newid ynddynt.

Os bydd unrhyw un yn eich aelwyd yn datblygu unrhyw un o'r symptomau hyn, hyd yn os ydynt ar ffurf ysgafn, mae angen iddynt aros gartref (10 diwrnod i'r person sydd â symptomau a 10 diwrnod ar gyfer gweddill yr aelwyd, ceisio cael prawf cyn gynted â phosibl, a dilyn y canllawiau yn <https://llyw.cymru/hunanynysu-canllawiau-aros-gartref-i-aelwydydd-coronafeirws-posibl>).

Ceir rhagor o fanylion am sut i wneud cais am brawf yn <https://llyw.cymru/gwneud-cais-i-gael-prawf-coronafeirws-covid-19> neu ffoniwch y rhif ffôn am ddim, 119, rhwng 7am ac 11pm. Gwnewch yn siŵr eich bod yn hysbysu'r ysgol am yr hyn sy'n digwydd.

Mae'r broses profi ac olrhain cysylltiadau yn rhan o'r 'normal newydd', gan ei bod yn ofynnol i ysgolion a lleoliadau ddilyn y canllawiau hyn yn ofalus. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch profi am y Coronafeirws ac olrhain cysylltiadau i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru yn <https://llyw.cymru/leoliadau-addysg-profi-am-coronafeirws-olrhain-cysylltiadau-chanllawiau-ap-covid-19-y-gig>.

Byddwn yn cysylltu â chi i drafod y gwaith dysgu a'r cymorth y gallwn eu rhoi i'ch plentyn yn ystod y cyfnod hwn.

Os yw eich plentyn yn teimlo'n iawn ar ddiwedd y cyfnod hunanynysu, yna gall ddychwelyd i'r ysgol. Nid oes angen dangos tystiolaeth o brawf negyddol. Gall aelodau eraill o'ch aelwyd, gan gynnwys plant eraill, barhau â'u gweithgareddau arferol ar yr amod nad yw eich plentyn yn datblygu symptomau yn ystod y cyfnod hunanynysu.

Rwy'n sylweddoli bod hwn yn gyfnod pryderus, ac mae croeso ichi gysylltu â ni os bydd angen cymorth ac arweiniad pellach arnoch. Mae taliadau hunanynysu o £500 ar gael i rieni a gofalwyr ar incwm isel sydd angen gofalu am blant (sy'n mynychu lleoliad gofal plant neu ysgol hyd at Flwyddyn 8, neu'r rheini ag anghenion cymhleth ychwanegol hyd at 25 oed) sy'n hunan-ynysu. Mae rhagor o wybodaeth am y meini prawf a'r broses ymgeisio ar gyfer y [cynllun cymorth hunanynysu](#) ar gael. Efallai y bydd angen y llythyr hwn fel tystiolaeth bod angen i'ch plentyn hunan-ynysu.